# *Ychwanegu Enw Clwstwr*

.

## Cyfarfodydd Clwstwr
## Cylch Gorchwyl

### 1. Cyflwyniad

Cydlynu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol yn y dull mwyaf effeithiol yw prif egwyddor gweithio ar sail Clwstwr. Mae clwstwr yn dwyn ynghyd yr holl wasanaethau a chymorth iechyd a gofal cymdeithasol ar draws ardal ddaearyddol ddiffiniedig, gan wasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae uchelgais gyffredin i sicrhau'r canlyniadau gorau i unigolion a chymunedau a gyflawnir drwy ganolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar gofal cydlynol wedi'i deilwra.

Gwasanaethir ein cymuned gan gyfuniad o staff iechyd a gofal cymdeithasol cyflogedig, timau contractwyr (Meddyg Teulu, Fferylliaeth Gymunedol, Optometreg a Deintyddiaeth) a gwasanaethau trydydd sector. Mae'n hanfodol bod ein strwythurau sefydliadol wedi'u cynllunio i hwyluso ymgysylltu proffesiynol effeithiol a chydweithio.

Mae pob un o'n grwpiau contractwyr annibynnol yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar ddarparu gwasanaethau. Mae **Grwpiau Cydweithredol Proffesiynol** yn darparu strwythur i gefnogi timau contractwyr i gysylltu â'u cyfoedion i adolygu safon a diogelwch gwasanaethau lleol, rhannu profiadau ac arfer da ar gyfer eu maes arbenigedd ac eiriol dros wella gwasanaethau.

Mae pob Contractwr Cydweithredol yn cael ei gynrychioli yn y **Clwstwr** – gan adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer cydlynu gwasanaethau lleol.
Mae trefniadau tebyg yn cael eu datblygu i ffurfioli ymgysylltiad gweithwyr proffesiynol nyrsio a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig a'u cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y Clwstwr.

### Y Clwstwr

Mae'r rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam yn adeiladu ar y trefniadau lleol presennol ar gyfer cynllunio a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn adrodd i'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr ar lefel sirol.

Y Clwstwr yw'r lefel fwyaf lleol o ran cynllunio a chydlynu gwasanaethau ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Cynllunio gwasanaethau a ddarperir orau ar lefel y clwstwr.
- Integreiddio gwasanaethau sylfaenol a chymunedol rhwng y sectorau iechyd, cymdeithasol a gwirfoddol, gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gyda phartneriaid
- Darparu dewis amgen arloesol ac effeithiol yn lle modelau gofal cleifion allanol neu gleifion mewnol traddodiadol.

- Deall ac ymateb i'r sbectrwm llawn o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth a wasanaethir gan y Clwstwr gan ganolbwyntio'n benodol ar anghenion grwpiau sy'n agored i niwed
- Canolbwyntio ar atal afiechyd, a hyrwyddo lles, gan alluogi pobl i reoli eu hunain pan fo hynny'n briodol

## 2. Aelodaeth Clwstwr

2.1 Bydd Cyfarfodydd y Clwstwr yn cael eu cadeirio gan gynrychiolydd Arweiniol y cytunwyd arno/arni gan y grŵp. Mae'r Arweinydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cadeirio cyfarfod yn ei absenoldeb.

2.2 Bydd aelodaeth graidd y Clwstwr yn cynnwys cynrychiolaeth o'r holl wasanaethau lleol sy'n cyfrannu at iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal y clwstwr a bydd yn cynnwys:

- Arweinydd y Clwstwr (Cadeirydd)
- Arweinydd y Grŵp Cydweithredol Meddygon Teulu
- Arweinydd y Grŵp Cydweithredol Fferylliaeth Gymunedol
- Arweinydd y Grŵp Cydweithredol Deintyddol
- Arweinydd y Grŵp Cydweithredol Optometreg
- Arweinydd y Grŵp Cydweithredol Nyrsio Cymunedol
- Arweinydd y Grŵp Cydweithredol Proffesiynol Iechyd Cysylltiedig
- Cynrychiolydd y Trydydd Sector
- Cynrychiolydd Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Cynrychiolaeth Rheoli Meddyginiaethau
- Uwch Reolwr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol a Therapïau
- Rheolwr Datblygu Clwstwr

***Yn bresennol:***

- Pennaeth Gofal Sylfaenol
- Cyllid
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Cymorth y Clwstwr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir cynnwys aelodau eraill yn ôl y gofyn.

**Cynrychiolaeth cleifion** Ni fydd cynrychiolaeth cleifion yn rhan o'r aelodaeth graidd, ond bydd Clystyrau'n sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio'r gwaith o gynllunio a datblygu cynlluniau a gwasanaethau lleol. Gall hyn fod drwy sefydlu Fforymau Ymgysylltu/Cynnwys Cleifion ond caiff ei bennu'n lleol.

## 3. Cworwm a Gwneud Penderfyniadau

3.1 **Cworwm**

3.1.1. Mae cyfanswm o *xx* o aelodau. Bydd cworwm yn cynnwys dim llai nag un rhan o dair (*xx* o gynrychiolwyr) o'i aelodau yn bresennol a rhaid iddo gynnwys y canlynol ar gyfer gwneud penderfyniadau:

- Arweinydd y Clwstwr neu ddirprwy enwebedig
- 50% o'r aelodau cynrychioliadol

3.1.2 Gellir gwahodd unrhyw uwch swyddog neu glinigydd o'r Bwrdd Iechyd neu'r sefydliad partner i fod yn bresennol, naill ai ar gyfer y cyfarfod cyfan neu ran ohono, i gynorthwyo gyda thrafodaethau am fater penodol.

3.2 **Gwneud Penderfyniadau**

3.2.1 Disgwylir y bydd aelodau'r Clwstwr yn dod i gonsensws ar benderfyniadau drwy drafodaeth wedi'i llywio gan ddata a gwybodaeth leol berthnasol.

3.2.2 Dim ond pan fydd cworwm y gellir gwneud penderfyniad. Dylai aelodau nad ydynt yn y cyfarfod sicrhau presenoldeb dirprwy neu rannu eu barn ag arweinydd y clwstwr cyn y cyfarfod. Gellir rhoi pleidlais drwy ddirprwy.

3.2.3 Pan fo cynlluniau a buddsoddiad wedi'u cytuno fel rhan o Gynllun Tymor Canolig Integredig y Clwstwr, efallai y bydd angen cadarnhau'r penderfyniad hwn yn unig.

3.2.4 Pan na lwyddir i ddod i benderfyniad drwy gonsensws, defnyddir y cynllun pleidleisio canlynol
- Ar gyfer penderfyniadau lle NAD oes goblygiadau ariannol, y bleidlais fwyafrifol (50% + 1) sy'n sicrhau'r penderfyniad. (*xx* o gynrychiolwyr)
- Ar gyfer penderfyniadau sy'n cynnwys goblygiadau ariannol, ni fydd llai na 75% o'r aelodau yn gwneud y penderfyniad (*xx* o gynrychiolwyr). Fodd bynnag, rhaid i bob penderfyniad ariannol fod yn unol â 3.3 isod ac ar y cyd â llofnodwr awdurdodedig yng Ngrŵp Cynllunio Traws-glwstwr.

3.2.5 Bydd yr holl benderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â blaenoriaethau a chyllid y Clwstwr yn cael eu dogfennu a bydd dull teg a democrataidd o wneud penderfyniadau yn cael ei ddilyn.

3.2.6 Gall Arweinydd y Clwstwr gytuno i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i gyfarfodydd clwstwr craidd h.y. o bell. Rhaid i'r penderfyniadau hyn barhau i fod yn unol â 3.2.1 i 3.2.6. Bydd angen cadarnhau'r penderfyniad yn y cyfarfod nesaf.

3.2.7 Dylai datganiadau o fuddiant gael eu cofnodi'n agored gan bob aelod a'u hystyried pan wneir penderfyniadau. Efallai y gofynnir i aelodau unigol ymatal rhag gwneud penderfyniadau penodol pan fo hynny'n briodol.

3.2.8 Pan fo angen gwneud penderfyniad ar frys, mae'r Clwstwr yn dirprwyo awdurdod i Arweinydd y Clwstwr i wneud penderfyniadau ar gyfer y grŵp ac ar ei ran. Bydd angen i'r penderfyniadau hyn fod ar y cyd â llofnodwr awdurdodedig o'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr os oes goblygiadau ariannol. Bydd camau o'r fath yn cael eu cyfleu i'r aelodaeth lawn cyn gynted â phosibl.

### 3.3 Cyllid

3.3.1 Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyllidebau clwstwr a'u dirprwyo drwy Fyrddau Iechyd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn dirprwyo'r cyllidebau hyn i'r Clwstwr drwy'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr

3.3.2 Gall y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid ddirprwyo adnoddau ychwanegol i'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr a Chlystyrau i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.

3.3.3 Rhaid cwblhau cofnod ariannol ar ddiwedd pob cyfarfod a fydd yn amlinellu'r holl benderfyniadau ariannol.

3.3.4 Bydd Cadeirydd y Clwstwr yn adolygu perfformiad ariannol, yn nodi ac yn gweithredu ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder ariannol, ac yn adrodd i'r Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr

3.3.5 Bydd yn ofynnol i'r Clwstwr gynhyrchu cynlluniau gwariant blynyddol, gan ystyried y Canllaw Ariannol a rhaid iddo gynrychioli'r blaenoriaethau yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Clwstwr.

## 4. Cyfrifoldebau aelodau unigol o'r grŵp

Cyfrifoldebau **Arweinydd y Clwstwr**:

- dod â'r ystod eang o aelodau Clwstwr ynghyd i gynnal asesiad cynhwysfawr a chyfredol o anghenion y boblogaeth a wasanaethir
- cytuno ar flaenoriaethau lleol a datblygu cynigion i wella gwasanaethau
- cydlynu rhaglen waith y Clwstwr i droi cyfeiriad strategol cenedlaethol yn gamau gweithredu
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu trefniadau llywodraethu a stiwardiaeth effeithiol mewn perthynas ag adnoddau'r clwstwr yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog gan ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol ac yn ddarbodus.
- Myfyrio ar newidiadau i wella trefniadau'r Clwstwr yn lleol a'i gefnogi pan fo angen er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd a gwella profiad y gweithlu

Cyfrifoldebau **Arweinydd y Bwrdd Iechyd:**

- Cynghori ar gyfeiriad strategol cenedlaethol a lleol a chanllawiau Llywodraeth Cymru
- Sicrhau presenoldeb priodol gan staff perthnasol y bwrdd iechyd (Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad, Cyllid, Cyfathrebu ac ati)
- Nodi cyfleoedd i brif-ffrydio arloesedd llwyddiannus a sicrhau bod prosesau busnes wedi'u cynllunio i annog a chefnogi arloesedd rheng flaen
- Myfyrio ar newidiadau i wella trefniadau Clystyrau lleol a'u cefnogi pan fo angen er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd a gwella profiad y gweithlu

Mae cyfrifoldebau **aelodau unigol y Clwstwr** yn cynnwys:

- Cynrychioli profiad grwpiau cyfoedion a mynegi atebion arfaethedig
- Mynychu cyfarfodydd y Clwstwr yn rheolaidd a chymryd rhan weithredol yn natblygiad rhaglen waith y clwstwr
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau y cytunwyd arnynt i wella gwasanaethau
- Bod yn eiriolwr dros flaenoriaethau a chynlluniau'r Clwstwr
- Myfyrio ar newidiadau i wella trefniadau'r Clwstwr yn lleol a'i gefnogi pan fo angen er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd a gwella profiad y gweithlu

## 5. Trefniadau Busnes/Cyfarfodydd

5.1 Arweinydd y Clwstwr fydd yn pennu'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd gan gynnal cyfarfodydd interim ychwanegol fel sy'n ofynnol er mwyn gwneud penderfyniadau amserol. Os oes angen cynnal cyfarfodydd interim ychwanegol, rhoddir gwybod am hynny o leiaf wythnos ymlaen llaw. Fel arall, gall Arweinydd y Clwstwr benderfynu y gellir gwneud penderfyniad yn rhithwir, ond yn yr achos hwn rhaid i bob penderfyniad fod yn unol â 3.2 a chael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Clwstwr.

5.2 Amlinellir cworwm yn adran 3 uchod. Os nad oes Cworwm yn y cyfarfod, gall fynd yn ei flaen ond ni ellir gwneud unrhyw benderfyniadau.

5.3 Bydd y Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r gwaith o weinyddu'r cyfarfod a'i gefnogi'n ysgrifenyddol.

5.4 Bydd Rheolwr Datblygu'r Clwstwr yn cysylltu ag Arweinydd y Clwstwr ac aelodaeth y grŵp i bennu pob agenda.

5.5 Bydd yr agenda a'r papurau ar gyfer cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu o leiaf *5* diwrnod cyn y cyfarfodydd.

5.6 Dosberthir y cofnodion/log gweithredu i aelodau o fewn *7* diwrnod er mwyn cadarnhau cywirdeb.

5.7 Rhaid cymeradwyo cofnodion yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd

6.1 Bydd Cadeirydd y Clwstwr yn cynrychioli'r grŵp yn y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr

6.2 Bydd y Grŵp yn derbyn ac yn cymeradwyo cynlluniau gwella sy'n cynnwys costau

6.3 Bydd y Clwstwr yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Grŵp ar gyflawni yn erbyn amcanion a'r proffil ariannol cysylltiedig

## 7. Adolygu

7.1 Bydd y cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn flynyddol.

**Dyddiad Cytuno:**
**Dyddiad yr Adolygiad:**

DRAFT